

Derbyn a Blwyddyn 1

Mrs Nina Williams

Staff

Nina Williams
Non Roberts
Llinos Angharad
Llio Tate

Darllen/Cofnod Darllen

Bydd eich plentyn yn cael dewis llyfr i fynd adref, a byddwn yn newid y llyfr pan fydd eich plentyn yn dychwelyd y bag darllen. Gofynnwn i chi ysgrifennu sylwadau ar ôl darllen gyda'ch plentyn. Bydd plant y dosbarth Derbyn yn cael "Llyfr Sŵn" i fynd gartref hefyd.

Addysg Gorfforol/Nofio

Mae ein gwersi addysg gorfforol ddwy waith yr wythnos.

Dydd Llun — Nofio. Bydd eich plentyn angen gwisg nofio a thywel.

Dydd Mawrth - Tu allan. Bydd eich plentyn angen esgidiau addas.

Thema

Stori "Beth Nesaf" gan Jill Murphy

Bydd ein gweithgareddau yn deillio o'r stori ac yn cynnwys :

- Ysgrifennu stori eu hunain gan ddilyn yr un patrwm
- Edrych ar ddeiet iach
- Dysgu am fondiau rhif
- Datblygu ymwybyddiaeth o amser — dydd a nos a'r tymhorau
- Dysgu am dylluanod ac adar eraill
- Dysgu am sut mae bod yn ffrind da
- Gweithgareddau creadigol e.e. peintio lluniau, creu seintlun gydag offerynnau a gweithgareddau dawns

Gweithgareddau

Bydd gweithgareddau amrywiol yn yr ardaloedd o fewn y dosbarth i gydfynd â'r thema, e.e. Yn yr ardal graffeg bydd cyfle i'r plant greu pyped o dedi ac ysgrifennu darnau o'r stori. Yn yr ardal dywod byddant yn chwilio am dedis bychain ac yn eu dosbarthu er mwyn creu bondiau rhif hyd at 10.

Hefyd bydd gweithgareddau tu allan yn deillio o'r themau.